Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU SY'N DYSGU
A gynhaliwyd ar ffurf hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy gynhadledd fideo ar 29 Medi 2022

YN BRESENNOL; Y Cynghorydd Chris James (Cadeirydd), y Cynghorwyr Euros Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Amanda Edwards, Eryl Evans, Paul Hinge, Geraint Wyn Hughes, a Gareth Lloyd

Hefyd yn bresennol:- Ms Cathryn Charnell White (Aelod Cyfetholedig)

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr Wyn Thomas a Keith Henson (Aelodau Cabinet)

Swyddogion yn bresennol: Mrs Meinir Ebbsworth, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion, Mrs Elen James, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Dysgu Gydol Oes a Diwylliant, Ms Aggie Caesar-Homden, Rheolwr Partneriaethau, y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Mrs Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau.

(10.00-12:20pm)

1 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Rhodri Davies, Endaf Edwards a Mark Strong am na fedrent fod yn bresennol yn y cyfarfod.

Gan fod y Cadeirydd, y Cynghorydd Endaf Edwards, yn absennol, cadeiriwyd y cyfarfod gan yr is-gadeirydd, y Cynghorydd Chris James.

2 Datgelu buddiannau personol/buddiannau sy'n rhagfarnu

Datgelodd Cathryn Charnell White fuddiant personol o ran eitem 3 ar yr agenda.

3 Adroddiad Trosolwg y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol 2021 - 2022

Ystyriwyd Adroddiad Trosolwg y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol 2021-2022 yn fanwl. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn rhoi trosolwg a diweddariad i Aelodau'r Pwyllgor ar gynnydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

4 Canlyniadau TGAU a Lefel A 2022

Ystyriwyd y canlyniadau TGAU a Lefel A 2022 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor er tryloywder. Adroddwyd o ganlyniad i bandemig Covid-19, ni chynhaliwyd arholiadau allanol yn eu dull traddodiadol yn ystod 2020 na 2021. Penderfynwyd y byddai arholiadau allanol yn cael eu cynnal yn ystod Haf 2022, a chyflwynwyd rhai addasiadau megis lleihau'r cynnwys mewn rhai pynciau.

Penderfynwyd gan Gymwysterau Cymru y byddai canlyniadau ar lefel genedlaethol yn adlewyrchu pwynt hanner ffordd yn fras rhwng canlyniadau haf 2019 a haf 2021. I'r perwyl hwnnw, nid oedd modd cymharu canlyniadau 2022 gyda blynyddoedd blaenorol. Cyflwynwyd canlyniadau dros dro ar gyfer Ceredigion (bydd y data swyddogol ar gael ddechrau mis Hydref).

CYTUNWYD nodi cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth a llongyfarch y disgyblion, yr athrawon a'r staff ar y canlyniadau gwych hyn yn dilyn y pandemig.

5 Fframwaith Gwella Ysgolion Llywodraeth Cymru

Ystyriwyd Canllawiau Gwella Ysgolion Llywodraeth Cymru. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor er mwyn rhannu gwybodaeth am ddogfen allweddol parthed Gwella Ysgolion a fydd â goblygiadau o ran sut mae'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion yn cael ei weithredu yng Ngheredigion.

Adroddwyd yn dilyn ymgynghoriad cenedlaethol a ddaeth i ben ar 15 Mawrth 2021, cyhoeddwyd dogfen ganllaw o'r enw Fframwaith Gwella Ysgolion Llywodraeth Cymru, ac mae'r ddogfen hon bellach yn weithredol ers mis Medi 2022. Bydd y ddogfen yn statudol o fis Medi 2024. Nod y ddogfen yw;

- Cryfhau effeithiolrwydd hunanwerthuso a gwella cynllunio o fewn ysgolion.
- Rhoi'r gorau i ddefnyddio'r system genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion a rhoi system gymorth debyg yn ei lle heb gyhoeddi categorïau ysgol
- Cryfhau a darparu eglurder ynghylch y gwahanu rhwng gweithgareddau gwerthuso / gwella a'r system atebolrwydd
- Neilltuo rolau a chyfrifoldebau gwahanol gyrff yn glir mewn system hunan-wella

Mae'r canllawiau yn gosod yr hyn y mae'n rhaid i ysgolion ac eraill yn y system addysg ei wneud a'r hyn y dylai ysgolion ac eraill ei wneud o dan y fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd. Mae rhwymedigaeth statudol y tu ôl i'r cyfeiriadau at yr hyn y mae'n 'rhaid' i ysgolion ac eraill ei wneud. Arfer gorau, yn unol â'r canllawiau, yw'r gweithrediadau hynny a nodir fel yr hyn y 'dylai' ysgolion ac eraill ei wneud. Drwy gyhoeddi canllawiau gwella ysgolion ar sail anstatudol nawr, rydym am i ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Estyn ac awdurdodau esgobaethol weithredu a phrofi'r dulliau gwella ysgolion ac atebolrwydd sy'n cael eu nodi ynddynt. Byddant wedyn yn gwerthuso eu heffaith. Ar ôl hynny, rydym yn bwriadu diweddaru'r canllawiau, gan adeiladu ar ddysgu yn 2022 i 2023 a 2023 i 2024 a'u cyhoeddi ar ffurf canllawiau statudol a fydd yn dod i rym ym mis Medi 2024.

Yna amlinellwyd rhestr o'r prif negeseuon i'r Aelodau.

CYTUNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

6 Arolygiadau Estyn, tymor yr Haf 2022

CYTUNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd a bod yr adroddiadau'n gadarnhaol iawn. Estynnwyd llongyfarchiadau i'r holl ysgolion ar eu cyflawniadau.

Adroddwyd bod y wasg wedi canolbwyntio ar un argymhelliad yn adroddiad Ysgol Penglais; ac nid yr adroddiad yn ei gyfanrwydd a oedd yn un cadarnhaol, gydag Estyn yn gofyn am ddwy astudiaeth achos o arfer ardderchog gan yr ysgol.

7 Blaenraglen Waith Ddrafft 2022/23

CYTUNWYD nodi'r Flaenraglen Waith ddrafft fel y'i cyflwynwyd yn amodol ar y canlynol: -

- Bod y Ffrwd Waith Ecwiti yn ymweld â HCT.
- Bod Polisi Drafft ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Rhagfyr.
- Bod diweddariad ar yr adolygiad o addysg ôl-16 yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Chwefror.
- Ffrwd waith yn ystyried yr adborth gan ysgolion ar y gwahanol agweddau ar eu taith wella yn dilyn arolygiadau.
- Adroddiad ar Awtistiaeth a'r angen i leihau'r amser sydd ei angen ar y Bwrdd Iechyd i asesu plant a'r ddarpariaeth ar gyfer awtistiaeth o fewn y sir.
- Bod diweddariad ar y grantiau sydd ar gael i ysgolion yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Rhagfyr cyn pennu'r gyllideb ym mis Chwefror.
- Yr angen i egluro bod y Panel Asedau yn parhau i neilltuo arian a geir drwy werthu hen adeiladau ysgol i'r gyllideb addysg.
-

8 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion

CYTUNWYD cadarnhau bod Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor yn rhai cywir.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 8 Rhagfyr 2022

Cadeirydd:_____

Dyddiad:_____